# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

# 59(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, rhaglen fuddsoddi 2022-23

(45 munud)

## 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar y Strategaeth Ddigidol

(45 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU sy'n gyson â Sero Net - TYNNWYD YN ÔL

(0 munud)

## 6 Dadl: Ail Gyllideb Atodol 2021 i 2022

(30 munud)

**NDM7926** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth, 15 Chwefror 2022.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig;

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c); a

(vi) manylion am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 20.7 - 20.7B ar gyfer y gyllideb ddrafft, fel y nodwyd yn y protocol y cytunwyd arno o dan Reol Sefydlog 20.1A.

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 7 Dadl: Diwygiad i Setliad Llywodraeth Leol 2021-22

(15 munud)

**NDM7952** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo'r Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2021-22 (Setliad Terfynol - Cynghorau) diwygiedig. Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2022.

## 8 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

(60 munud)

**NDM7950** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11: Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

Gosodwyd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 1 Tachwedd 2021. Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) gerbron y Senedd ar 4 Mawrth 2022.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol ynghylch Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

(5 munud)

**NDM7951** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 16 Mawrth 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 10/03/2022 i'w hateb ar 15/03/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

1 OQ57800 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol rhaglen y Cymoedd Technoleg?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

2 OQ57811 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yng Nghymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

3 OQ57808 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi sgiliau yn ystod tymor y Senedd hon?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

4 OQ57778 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i groesawu a chefnogi ffoaduriaid sy'n ffoi rhag Wcráin?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ57815 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

6 OQ57780 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion ar gyfer campws iechyd a lles amlasiantaethol yn y Drenewydd?

**Buffy Williams** *Rhondda*

7 OQ57777 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effeithiau'r argyfwng costau byw ar gymunedau yng Nghanol De Cymru?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ57795 (e)

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gyda chynghorau lleol am dreth dwristiaeth?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

9 OQ57775 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi'r economi yng ngorllewin Cymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ57790 (e)

Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i leihau'r baich gofal di-dâl sy'n syrthio'n bennaf ar fenywod?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

11 OQ57809 (e)

Beth yw asesiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o effaith y rhyfel yn Wcráin ar gyfrifoldebau datganoledig?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

12 OQ57788 (e)

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda chydweithwyr llywodraeth leol am fuddsoddiadau cynllun pensiwn y sector cyhoeddus awdurdodau lleol?